Fe fentrodd ail dîm Penrhyn-coch sef Bois y Fro i'r rownd chwarter terfynol ond yn anffodus, fe gollon nhw yn erbyn Padarn Juniors.

Nawr roedd rhaid Chwarae Siarcod, ennillon 1-0, sgoriodd Gruffudd gôl arbennig. Roedd pob un yn falch ac yn hapus iawn.

O'r diwedd, y rownd derfynol, roeddem yn chwarae Padarn Juniors, sef tîm o ysgolion Cwm Padarn a Sant Padarn. Roedd y gêm yn cael ei chwarae fel gêm tenis, nôl ac ymlaen roedd y bêl yn mynd, gyda dim sgôr pan aeth y chwib. Felly, doedd dim amdani ond chwarae y Gôl Euraid!

Aeth y dyrfa yn wyllt, roedd y bêl wedi cael ei chwipio lan i'r awyr a sgoriodd Padarn Juniors. Aeth chwaraewyr Penrhyn-coch yn dawel gyda sawl deigryn bach yn rowlio lawr bochau y bois a sŵn hapus gan griw Padarn Juniors, nhw oedd enillwyr y dydd. Roedd yn diwrnod i'w gofio.

gan
Rhys Wynn Morgan